

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod Hybrid 28 Hydref 2024 am 7:00 yr hwyr.

| ENW | PRESENNOL | YMDDIHEURO |
|---|-----------|------------|
| John Brinley Jones | ✓ | |
| Alan Harper-Smith | ✓ | |
| Andrew Parry (Cadeirydd) | ✓ | |
| Greta Hughes | | ✓ |
| Gwenllian Davenport Hughes | ✓ | |
| Hywel James Sinclair Evans | ✓ | |
| Ian Goronwy Williams (Is-gadeirydd) | ✓ | |
| Keith Williams | ✓ | |
| Kevin Wheatley | | ✓ |
| Thomas Victor Jones | ✓ | |
| William Roger Jones | ✓ | |
| HEFYD | | |
| Caroline Jones (Clerc) | ✓ | |
| Ann Llwyd (Cyfieithydd) (ar Zoom) | ✓ | |
| Craig Sparrow, Tai Clwyn Alun* | ✓ | |
| Aled Davies, Rheolwr Oedolion, Iechyd a Llesiant Cyngor Gwynedd* | ✓ | |
| Cynghorydd Dilwyn Morgan, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant Cyngor Gwynedd* | ✓ | |
| Cynghorydd Angela Russell, Ward Llanbedrog gyda Mynytho, Cyngor Gwynedd* | ✓ | |
| Christine Rudgeley, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr* (ar Zoom) | ✓ | |
| * wedi gadael y cyfarfod lle cofnodwyd. | | |

1. Presennol ac ymddiheuriadau

Rhestrwyd yr aelodau'n bresennol, yn ogystal â'r ymddiheuriadau, yn y tabl uchod.

2. Datgan Buddiant Ariannol neu Bersonol

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad buddiant ariannol na phersonol.

3. Cofnodion - er mwyn cywirdeb yn unig. Pwyllgor 30 Medi 2024

Derbyniwyd y cofnodion yn unfrydol fel rhai cywir.

Cynigiwyd gan: Ian Williams

Eiliwyd gan: Thomas Victor Jones

4. Unrhyw Fater Brys

4.1. Cyflwyniad ynghlyn a'r datblygiadau yn Penrhos/Penyberth.

Croesawyd Craig Sparrow o Tai Clwyd Alun i'r cyfarfod. Rhoddodd gyflwyniad ar gynnydd y datblygiad hyd yma. Roedd Clwyd Alun wedi bod yn cynnal a chadw'r safle ers pedair blynedd hyd yma ac fe oedd trigolion yn parhau i fyw yno. Byddai'r datblygiad newydd yn cynnwys tai un-llawr a fflatiau i bobl oedrannus ac fe fyddai cydweithrediad gyda'r awdurdod lleol i greu safleoedd ar gyfer cartrefi cymysg ac i

Cofnodion Cyfarfod Hybrid 28 Hydref 2024 am 7:00 yr hwyr.

gynorthwyo gyda darparu cartref nyrsio newydd. Tua dwy erw oedd ar gael ar gyfer adeiladu adnodd gofal nyrsio a fyddai'n cael ei drosglwyddo i'r awdurdod lleol ar gytundeb prydles er mwyn datblygu ar y tir. Adroddodd bod y gwaith caniatâd cynllunio yn mynd rhagddo ar ddatblygu safle Penyerth ar gyfer cartrefi. Roedd gwaith astudiaeth ecolegol wedi cael ei wneud, yn ogystal â chyfarfod manyleb gyda 'r contractwr, Cartrefi Williams, Bala. Ar hyn o bryd, roeddent yn gweithio drwy manylion y datblygiad, a fyddai gyda'r un system carbon isel yn ynddo, yn defnyddio paneli solar wedi eu gwneud yng ngharchar Berwyn, y prif aradeiledd yn cael ei ddanfôn i'r safle mewn un darn, wedi eu hinsiwleiddio yn dda, wedi eu gwresogi gyda system gwresogi drwy aer, sef system wedi ei ddefnyddio yn llwyddiannus ganddynt eisoes. Adroddodd bod y tîm adeiladu yn ymweld â'r carchar ym mis Tachwedd i gael gweld y manylion. Disgwylwyd am gadarnhad gan Lywodraeth Cymru am yr ariannu ar gyfer y cam cyntaf, sef, hanner y gost, gyda'r hanner arall i'w dalu gyda benthyciadau.

Wedi i'r cam cyntaf gael i gwblhau, byddai'r trigolion presennol yn cael y dewis cyntaf o'r cartrefi.

Disgwylir adeiladu gychwyn o gwmpas mis Ionawr 2025, gyda 15-16 mis wedi ei glustnodi i'w cwblhau. Gall y cartrefi cael eu gosod mewn camau. Nifer y cartrefi byddai: 44 cartref i bobl sydd yn byw yno eisoes, gydag unrhyw yn weddill yn cael eu cynnwys yn stoc cartrefi Gwynedd - i'w gosod. Byddai cymysg o gartrefi.

Cadarnhawyd bod ymghynghoriad gyda'r trigolion wedi ei wneud dros y blynyddoedd diwethaf, a bod perthynas wedi ei ddatblygu gyda hwy erbyn hyn.

Adroddwyd nad oedd y cartrefi yng nghamau 2 a 3 wedi eu cadarnhau eto, ond disgwylir cymysg. Byddai'r cartrefi yma yn cael eu gosod yn unol â pholisi gosod cartrefi; roedd Cyngor Cymuned Llanbedrog yn awyddus i fod yn rhan o'r drafodaeth yno pan y ddaw. Nodwyd hefyd y byddai rhai cartrefi yn cael eu gosod i staff y cartref nyrsio fel bo angen.

Eglurodd Aled Davies(Cyngor Gwynedd), byddai cartref gofal henoed newydd yn cael ei ddatblygu ar y safle ar gyfer unigolion efo anghenion dwys, a chefnogaeth ar gael hefyd i'r trigolion yn y cartrefi. Eglurodd bod safonau yn bodoli ar gyfer gofal, a byddai rhaid cadw at y rhain; disgwylir hefyd fynd drwy sawl cam cyn symud ymlaen. Y cam cyntaf, a oedd yn digwydd rwan, oedd cynllun busnes amlinellol, cyn symud ymlaen i'r gwaith adeiladu. Gofynwyd iddo a oedd y prinder staff gofal wedi cael ei ystyried o fewn y cynllunio. Mewn ymateb, dywedodd y byddai cynllun datblygu yn cael ei wneud i lenwi unrhyw prinderau staff a ddaw, a bod Academi Gofal wedi ei sefydlu gan Gyngor Gwynedd i ganolbwyntio ar y prinder staff gofal.

O ran amserlen ar gyfer y cartref nyrsio, dywedodd byddai Cyngor Gwynedd mewn sefyllfa i rannu cynlluniau amlinellol yn gynnar yn 2025 – roedd penseiri yn gweithio

Cofnodion Cyfarfod Hybrid 28 Hydref 2024 am 7:00 yr hwyr.

arno rwan, a'r rheiny yr un rhai a oedd yn dylunio gweddill y safle. Roedd cwmni wedi ei benodi i lunio'r cais cynllunio yn ogystal. Cyn cyflwyno'r cais cynllunio, byddent yn ymgynghori arno, gyda'r bwriad i'w gyflwyno erbyn ganol 2025. Pwysleisiodd byddai'r cyfan yn ddibynnol ar dderbyn arian gan Lywodraeth Cymru.

Eglurodd Cyngh. Dilwyn Morgan ei ddyletswydd yn y broses a oedd yn cynnwys gweithio yn bartneriaeth efo Penrhos, yn cynnwys y Cymdeithas Pwyliaid, ac yn ceisio diogelu hanes a treftadaeth y safle. Byddai'r cartrefi newydd yma yn gallu cael eu haddasu i sicrhau bod y trigolion yn gallu aros yn eu cartrefi mor hir â phosib cyn symud i'r cartref nyrsio pe byddai angen. Cadarnhaodd y byddai'r ysgolion a choleg yn rhan o'r cynllun ar gyfer y dyfodol.

Eglurodd Christine Rudgeley rol y Bwrdd lechyd o fewn y datblygiad. Bu i'r strategaeth gweithredu cael ei gadarnhau yn y flwyddyn flaenorol a'u bod erbyn hyn hanner ffordd drwy'r cynllun busnes amlinellol, cytundeb partneriaeth, cytundebau cyfreithiol, gyda sawl is-grŵp, yn ystyried staffio, academi gofal ac yn edrych ar weithdrefnau arloesol ar gyfer y dyfodol.

Dywedodd dylid yr achos busnes llawn fod yn fyrach ac wedi ei gwblhau cyn cychwyn gwaith ar y safle. Nid oedd y Bwrdd lechyd yn cael menthyg arian, felly ni fyddai cyfraniad cyfalaf ar gael ganddynt, felly byddent yn 100% ddibynnol ar y datblygiad yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mewn ymateb i sylw gan yr aelodau, dywedodd nad oedd fferyllfa ar gyfer y safle wedi ei drafod eto, ac mi fyddai yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gael fferyllfa breifat o fewn y datblygiad.

Diolchodd Cyngh. Angela Russell i'r partneriaid ynghlwm â'r datblygiad ym Mhenrhos. Byddai'r datblygiad yma yn sicrhau cartrefi a gofal yno yn dilyn sefyllfa anodd iawn pan cafwyd gwybod y byddai posibilrwydd o'u colli rhai blynyddoedd yn ôl.

Gofynnwyd i'r Cyngorwyr Sir yn bresennol i sicrhau bod Polisi Gosod Tai Gwynedd, yn dod gerbron Cyngor Cymuned Llanbedrog pan yn barod.

I gloi, cadarnhaodd Craig Sparrow byddai llifogydd / dŵr ar y safle yn cael ei gyfeirio i mannau cynaladwy, fel pyllau dŵr, a nid i'r draeniau. Nid oedd yn gallu rhoi sylw i'r mater llifogydd ar y brif ffordd gan ei fod o dan ofal y Cyngor Sir.

Diolchwyd i Cyngh. Dilwyn Morgan, Craig Sparrow, Aled Davies ac Christine Rudgeley am gyflwyno i'r Cyngor Cymuned, ac fe wnaethant adael y cyfarfod.

5. Llwybrau

Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi gweld Roger Fisher, a oedd am osod cerrig man ar y llwybr yn Nhyn y Pwll am y tro.

Cofnodion Cyfarfod Hybrid 28 Hydref 2024 am 7:00 yr hwyr.

Adroddodd John Brinley Jones ei fod wedi derbyn cwyn am safon torri'r llwybrau eleni, hynny yw, nad oedd digon yn cael ei dorri yn ôl mewn rhai manau.

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r contractwr i'w torri i gyd yn ôl cyn y gaeaf, mwy na'r arfer gwnaethpwyd eleni hyd yma ganddo.

6. Y Fynwent, y Fynwent Newydd

Adroddodd y Clerc bod wal ym maes parcio'r fynwent wedi disgyn i lawr a cherrig wedi disgyn yn erbyn sied y cymydog. Nid oedd yn glir sut 'roedd hyn wedi digwydd, efallai car wedi bagio i mewn iddo. Roedd lluniau o'r difrod, a phris gan Dilwyn Williams i'w drwsio, wedi ei gynnwys gyda phapurau'r cyfarfod.

Trafodwyd beth i wneud nesaf, hynny yw, gwneud cais drwy'r yswiriant yntau talu i'w drwsio. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu efo'r cwmni yswiriant am gyngor cyn symud ymlaen gyda'r gwaith.

Dywedodd Cyng. Angela Russell ei bod wedi derbyn cwyn am y cwningod a oedd yn gwneud llanast yn y fynwent drwy dyllu, a'u bod yn mochel o fewn y tyfiant yng nghorneli'r fynwent, ac a fyddai posib torri'r tyfiant yma.

Cytunwyd i'r Clerc drefnu i'r tyfiant yn y fynwent cael ei dorri.

Diolchwyd i Cyng. Angela Russell am fynychu ac fe gadawodd y cyfarfod.

7. Cae Chwarae

Adroddodd y Clerc bod y *Japanese Knotweed* yn y cae chwarae wedi cael ei chwistrellu a nid oedd y bil am y gwaith wedi ei dderbyn hyd yma.

Adroddodd James Evans bod nifer o bethau wedi cael eu gwneud yn y cae chwarae erbyn hyn, gan gynnwys: gosod basged rwyd a goliau. Dywedodd bod y tarmac ar y cwrt pel faged angen ei ail-wneud, a bod hyn i'w hariannu o'u ffnhonell eu hunain. Adroddodd, yn anffodus, bod fandaliaeth yn y pentref, gyda ffens yng ngwaelod y cae chwarae wedi cael ei falu. Byddai'r aelodau Cyngor Cymuned a oedd yn lywodraethwyr Ysgol Llanbedrog yn codi'r fater yn yr ysgol. Awgrymwyd hefyd iddynt argymhell i'r ysgol ofyn i swyddog cyswllt ysgolion o'r Heddlu fynd i siarad gyda'r disgyblion.

Adroddwyd bod cais am grant wedi ei drefnu. Hefyd mae gweithgareddau codi arian i'r cae chwarae wedi eu trefnu, sef noson Bingo ar 22 Tachwedd yn Glyn y Weddw.

Byddai manylion ariannu a gwariant yn cael eu cyflwyno erbyn cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned.

8. Neuadd y Pentref

Cofnodion Cyfarfod Hybrid 28 Hydref 2024 am 7:00 yr hwyr.

Adroddodd Ian Williams ar ran y pwyllgor. Da oedd adrodd bod mwy o ddigwyddiadau yn y neuadd erbyn hyn, hynny yw, gwahanol ddsbarthiadau cadw heini, tair noson yr wythnos, ar nos Fawrth, Fercher a Iau. Yn ychwanegol, ar 16/17 Tachwedd byddai arddangosfa hen luniau Llanbedrog, wedi ei drefnu gan Iwan Hughes, yn cael ei gynnal rhwng 11-4yh. Gobeithir allu cynnig panad yn ystod yr arddangosfa, a byddent yn ddiolchgar iawn o unrhyw gymorth gyda hynny.

Gofynnwyd i'r Clerc hysbysebu'r arddangosfa a gofyn am gymorth ar y tudalen Facebook.

Adroddodd John Brinley Jones bod y cytundeb trydan yn gorffen ar Tachwedd 4 a bod cytundeb newydd efo British Gas wedi ei drefnu.

9. Taliadau

9.1. Cytunwyd y taliadau isod:

Wedi eu derbyn a thalu ers y cyfarfod diwethaf:

- a) Camgymeriad bancio gan y Clerc – 2 x £500 wedi talu, ac wedi ei a-dalu, rhannwyd memo i egluro'r camgymeriad gyda phapurau'r cyfarfod.
- b) Cyngor Gwynedd – Archwilio Mewnol £384
- c) Roger Fisher - £420

Cytunwyd hefyd:

- d) Ann Llwyd, cyfieithydd: £70
- e) Cyflog y Clerc: £443.87
- f) PAYE a YG: £110.80

Derbyniwyd yn unfrydol.

9.2. Datganiadau banc: Rhannwyd y datganiadau gyda'r papurau o flaen llaw, y balansau oedd:

- a) Natwest Business Reserve – balans 28/10/2024 yn £1,196.77
- b) Natwest Current – balans 28/10/2024 yn £47,188.88
- c) Natwest Liquidity Manager – balans 30/09/2024 yn £70,691.14

10. Ceisiadau Cynllunio:

[C24/0843/38/AC](#) - Penrhos Polish Village, Lôn Llanbedrog, Pwllheli, Gwynedd, LL53 7HN.

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod Hybrid 28 Hydref 2024 am 7:00 yr hwyr.

Gofynnwyd i'r Clerc ofyn am eglurhad gan Cyng. Dilwyn Morgan am y newid yn y cais cynllunio cyn anfon ymateb i Gyngor Gwynedd erbyn y dyddiad cau. Os derbynnir ymateb cadarnhaol, y Clerc i ymateb gyda dim gwrthwynebiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 20.35.

Cyfarfod nesaf dydd Llun, Tachwedd 25, 2024.

| | |
|--|-----------------|
| COFNODION DRAFFT WEDI EU CADARNHAU GAN Y CADEIRYDD | |
| ARWYDDWYD <i>D. A Parry</i> DYDDIAD: 7 Tachwedd 2024 | |
| COFNODION WEDI EU CADARNHAU | |
| ARWYDDWYD | DYDDIAD: |